## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ty Russell Y Rhyl, ar ddydd Mercher, 28ain Mehefin 2000 am 10.00 a.m.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr F.D. Jones (Cadeirydd), D.W. Davies, M.Ll. Davies, A.E. Fletcher-Williams, I.M. German, M.A. German, K.N. Hawkins, D.M. Holder, J.R. Hughes, N.J. Hughes, R.W. Hughes, D. Jones (dirprwy ar ran P. Douglas), G. Jones, N.H. Jones, P.M. Jones, R.E. Jones, R.J.R. Jones, E.A. Owens (dirprwy ar ran J. Butterfield), A.E. Roberts (dirprwy ar ran S. Thomas), F. Shaw, J.A. Smith, K.P. Stevens, W.G. Thomas, K.E. Wells, E.W. Williams, P.O. Williams, ac R.Ll. Williams.

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Pennaeth Cyfreithiol a Gweinyddol, Pen Swyddog Cynllunio (Y Gogledd), Pen Swyddog Cynllunio (Y De), Pen Swyddog Cynllunio a Gorfodi a'r Swyddog Gweinyddol (G. Butler).

## CYFLWYNWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH

Y Cynghorwyr J. Butterfield, P. Douglas, S. Thomas ac A.J. Tobin.

## 187. CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio (a ddosbarthwyd eisoes) yn rhestru'r cynlluniau a gyflwynwyd ac a oedd angen eu penderfynu gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD***:-

*(a)* *cadarnhau argymhellion y Swyddogion fel a gynhwyswyd yn yr adroddiad a gyflwynwyd nawr a rhoi caniatâd cynllunio neu wrthod, fel y bo'r achos, fel y bo'n briodol dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio a Iawndal, 1991, Rheolau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref, 1994 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, i'r datblygiadau a gynigiwyd gan y cynlluniau canlynol, yn ddarostyngedig i'r amodau a nodwyd yn yr atodlen a gyflwynwyd nawr:-*

(i) caniatâd

01/2000/338/PF — Cegin ac estyniad ystafell ymolchi arfaethedig yng nghefn annedd yn 5 Bryndedwydd, Dinbych, Sir Ddinbych.

02/2000/220/PF — (Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol oddi wrth Gyngor Tref Rhuthun). Adeiladu estyniad i Neuadd y Dref bresennol, adeiladu toiledau cyhoeddus newydd, rhannol-drosi cyn orsaf dân fel Canolfan Cynghori'r Cyhoedd gan gynnwys newidiadau allanol cysylltiedig a chynigion tirweddu yn Neuadd y Dref, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, Sir Ddinbych.
YN AMODOL ar amod diwygiedig canlynol rhif. 3:-
3. Ni chaniateir cychwyn ar unrhyw waith ar y gwaith safle allanol yn cynnwys yr ardal tynnu lluniau/seremoni nes cyflwynwyd er ystyriaeth gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol:-
(i) cynllun manwl llawn yn dangos y tirweddu caled a meddal arfaethedig, lefelau/dodrefn stryd a strwythurau cysylltiedig (gan gynnwys rhywogaeth, niferoedd a lleoliad) a deunydd arwyneb, a
(ii) bod cynllun o'r fath wedi ei gymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol; ac ni ddylid defnyddio adeilad Neuadd y Dref nes bydd y manylion a gymeradwywyd wedi eu cwblhau yn unol â'r manylion a gymeradwywyd.

| | |
|---|---|
| 02/2000/222/PF | (Ar ôl ystyried dau lythyr ychwanegol oddi wrth Gyngor Tref Rhuthun a CADW).<br>Dymchwel adeiladau presennol a chadw prif ffasâd Swyddfeydd presennol y Cyngor, adeiladu complecs Swyddfeydd Cyngor newydd gyda newidiadau cysylltiedig i fynedfeydd, darparu maes parcio ceir, tirweddu, llety dros dro ac adeiladu mynediad yn Swyddfeydd y Cyngor yn Swyddfeydd Cyngor Sir Ddinbych, Heol yr Orsaf, Rhuthun, Sir Ddinbych.<br>YN AMODOL ar amodau diwygiedig canlynol rhifau 4, 14 ac 16 ac amod newydd 18:-<br>4. Ni ddylid defnyddio unrhyw ran o'r adeilad newydd nes ceir cytundeb yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ysgrifenedig o safbwynt amseriad cwblhau'r gwaith ar y prif faes parcio mewn cysylltiad gyda defnyddio rhannau o'r adeilad a symud ymaith llety dros dro, a dylid cwblhau cynllun y maes parcio yn unol gyda'r amserlen a gytunwyd a'r cynllu-niau gymeradwywyd fel rhan o'r caniatâd hwn ac amodau cysylltiedig.<br>14.Ni chaniateir unrhyw waith dymchwel ar unrhyw ran o'r ffasâd swyddfa gwreiddiol ar ddarlun N3587-F1, nac ar unrhyw ran o brif adeilad y swyddfeydd sy'n darparu cynhaliaeth strwythurol i ffasâd Ffordd Wynnstay/Stryd y Farchnad nes cafwyd cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar union fanylion maint y strwythur i'w gadw, y dull o'i ddymchwel, a dull cynnal y strwythur newydd a gadwyd cyn ailddatblygiad, a'r dull o gysylltu'r ffasâd gyda'r adeilad newydd, a dylai'r datblygiad fynd rhagddo yn unol â'r manylion a gymeradwywyd.<br>16. Ni chaniateir cychwyn ar unrhyw waith ar adeiladu adeilad y swyddfa na chynllunio'r maes parcio a dull mynediad i'r adeilad nes bydd manylion trefniadau i gynorthwyo mynediad i a defnydd gan bersonau anabl wedi eu cyflwyno i a'u cymeradwyo yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, i gynnwys:-<br>a) Manylion cyfleusterau pacio ar gyfer pobl anabl yn ymgorffori mannau parcio gwastad, lled 3.6m gyda chroeslinellau rhwng mannau parcio.<br>(Gweddill fel b) ac c))<br>18. Ni chaniateir cychwyn ar waith adeiladu adeilad y swyddfa nes bydd cynlluniau manwl llawn drychiadau'r buarth mewnol wedi eu cyflwyno i a'u cymeradwyo yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, a chaiff y datblygiad ond fynd rhagddo yn unol â'r cynlluniau a gymeradwywyd.<br>RHESYMAU - er budd mwynderau gweledol. |
| 02/2000/223/CA | (Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol oddi wrth Gyngor Tref Rhuthun).<br>Dymchwel adeiladau presennol a chadw prif ffasâd Swyddfeydd presennol y Cyngor i ganiatáu ar gyfer adeiladu Swyddfeydd Cyngor newydd gyda newidiadau cysylltiedig mewn mynedfeydd, darparu maes parcio ceir a thirweddu, llety dros dro a mynedfa adeiladu yn Swyddfeydd Cyngor Sir Ddinbych, Heol yr Orsaf, Rhuthun, Sir Ddinbych. |
| 02/2000/224/PF | Adeiladu adeilad i ddarparu cyfleusterau storio corfforaethol sy'n gysyll-tiedig gyda chanolfan ddinesig newydd y Cyngor, yn ymgorffori maes parcio a gwasanaeth cysylltiedig ar Stâd Ddiwydiannol Lôn Parcwr, Llain 8, Lôn Parcwr, Rhuthun, Sir Ddinbych |
| 20/2000/320/PF | Newid defnydd gweithdy crefftau yn feithrinfa mewn gweithdy ym Mrynmair, Llanfair Dyffryn Clwyd, Rhuthun, Sir Ddinbych. |

27/2000/417/PF

(Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol oddi wrth Mrs. M. Jones, Ivywood, Pentrefelin, Llangollen).
Newid defnydd tir ar gyfer storio cerbydau modur yn disgwyl eu hadfer yn Amgueddfa Foduron Llangollen, Pentrefelin, Llangollen, Sir Ddinbych.
YN AMODOL ar amodau diwygiedig canlynol rhifau. 2 a 3 ac amod newydd rhif 4:-
2. O fewn 1 mis i ddyddiad y caniatâd hwn, dylid cyflwyno cynllun tirweddu yn darparu ar gyfer llain blannu 2 fedr o led o leiaf ar hyd ffin ddwyreiniol y safle, i'w ystyried a'i gymeradwyo yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.
3.Dylid ymgymryd â'r cynllun tirweddu a gymeradwywyd yn unol ag amod 2 o'r caniatâd hwn o fewn y tymor plannu cyntaf ar ôl dechrau defnyddio'r safle, a dylid ailblannu unrhyw goed neu blanhigion sydd yn marw neu'n cael eu niweidio neu'n dioddef o afiechyd difrifol o fewn pum mlynedd o gwblhau'r cynllun plannu gyda phlanhigion eraill o faint a rhywogaeth tebyg yn y tymor plannu nesaf.
4. Dylid defnyddio'r tir sy'n destun y cais ar gyfer storio cerbydau sy'n aros i gael eu hatgyweirio neu eu hadfer yn unig gan Amgueddfa Foduron Llangollen, ac ni ddylid ei ddefnyddio ar unrhyw adeg ar gyfer storio heb gerbydau i'w sgrapio neu rannau ohonynt.
RHESWM - er budd mwynderau gweledol.

31/2000/490/PC

(Cyn belled â na dderbynnir unrhyw gyflwyniadau pellach yn codi materion cynllunio nas trafodwyd eisoes yn yr adroddiad erbyn 6ed Gorffennaf 2000)
(Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol gan Nwy Prydain a chynllun lleoliad diwygiedig a ddosbarthwyd yn y cyfarfod).
Parhau i ddefnyddio tir amaethyddol cyffiniol fel estyniad i dir preswyl, adeiladu modurdy to goleddf un llawr a chadw cynel cwn (cais ôl-weithredol) ym Mhlas Bryn Celyn, tir yn cyffinio Groesffordd Marli, Abergele, Sir Ddinbych.
YN AMODOL ar amodau diwygiedig canlynol rhifau 1 a 2 ac amod newydd 3 a nodyn i'r ymgeisydd:-
1.Dileu "first planting and seeding seasons".
2. Er gwaethaf darpariaethau Dosbarth E Rhan 1 Atodlen 2 gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995 neu unrhyw orchymyn yn dileu neu ailddeddfu'r gorchymyn hwnnw gyda neu heb addasiad) ni ddylid ymgymryd ag unrhyw ddatblygiad a ganiateir gan y Dosbarthiadau hynny heb [ganiatâd cynllunio pellach gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar y tir preswyl estynedig a ganiateir trwy hyn a'r ardd wreiddiol]
RHESWM - er budd mwynderau gweledol.
3.Defnyddir y modurdy a'r cynel cwn a ganiateir trwy hyn i ddibenion ategol i ddefnydd preswyl Plas Bryn Celyn yn unig ac nid ar gyfer unrhyw ddibenion busnes.
RHESWM - er budd mwynderau preswyl a gweledol.
Nodyn i'r Ymgeisydd - Fe'ch cynghorir bod Transco yn nodi bod pibell nwy pwysedd uchel yng nghyffiniau'r safle. Yn amgaeëdig mae cynllun yn nodi lleoliad y bibell a chôd ymarfer ar gyfer gweithio yng nghyffiniau pibellau o'r fath.
(Ymatalodd y Cynghorydd N.H. Jones rhag pleidleisio ar y mater hwn).

41/2000/341/PF

Adeiladu estyniad dau lawr i ochr ty annedd i greu modurdy dwbl gyda llofft uwchben yn Pandy Cottage, Bodfari, Dinbych, Sir Ddinbych.

| | |
|---|---|
| 43/2000/301/TP | Torri, tocio a theneuo coed yn Ardal A1 ar gynllun ynghlwm wrth Orchymyn Gwarchod Coed Rhif 2, 1973 Cyngor Dosbarth Trefol Prestatyn yn Brookdale Cottage, Cefn Y Gwrych, Prestatyn, Sir Ddinbych.<br>YN AMODOL ar yr amodau newydd a diwygiedig canlynol rhifau 3, 4 a 5 y cynnwys-<br>3. Nodi planhigion newydd mwy na 2 fedr o uchder.<br>4.Hysbysiad gwaith/esbonio beth a symudir ymaith<br>5.Dim llosgi gwastraff dan y coed.<br>(Pleidleisiodd y Cynghorydd N J Hughes yn erbyn y cynnig hwn) |
| 43/2000/381/PC | Cadw bleindiau rholer ar ffenestr siop a drws a chanopi uwchben drws (cais ôl-weithredol) yn 2 Kings Avenue, Prestatyn, Sir Ddinbych. |
| 43/2000/432/PC | (Ar ôl ystyried 16 llythyr pellach oddi wrth y Pennaeth Priffyrdd; Peter Ball, 11 Padarn Close, Saltney; J.C. a J. Price, 17 Awelon Mor, Prestatyn; P. Melson, 4 Awelon Mor, Prestatyn; Robert Marton, 7 Aspen Grove, Bae Cinmel; B. & R. Bethell, 129 Victoria Road, Prestatyn; J. Clark, Ellesmere Port (ar ran Awelon Mor); S. Hale, Prestatyn (ar ran 6 Awelon Mor); T. Hill, Penymynydd; A. Melson, 4 Awelon Mor; L.M. Mairs, 7 Adele Ave, Prestatyn; P. Holland, 3 Awelon Mor (llofnodwyd gan 24 o drigolion); D. Wildgoose, Delfryn, Ffordd Penrhwylfa, Prestatyn; S. Forshaw (dim cyfeiriad) ac A. Brease, 15 Awelon Mor, Prestatyn yn erbyn y cais a'r Ymgeisydd o balid y cais).<br>Parhau i ddefnyddio tir ar gyfer lleoli adeilad dros dros i'w ddefnyddio fel swyddfa a gwerthu ac arddangos cerbydau modur (cais ôl-weithredol) yn Beach Service Station, Victoria Road, Prestatyn.<br>YN AMODOL ar amod diwygiedig rhif 3, amodau newydd 6, 7 ac 8 a nodiadau i'r ymgeisydd.<br>3. Er gwaethaf y manylion a gyflwynwyd gan y cais hwn, dylid adleoli adeilad dros dro'r swyddfa o fewn mis o'r caniatâd hwn i'r lle a nodir ar y cynllun sydd ynghlwm dyddiedig 29ain Mehefin 2000.<br>RHESWM - er budd mwynderau gweledol a phreswyl.<br>6.Cyfyngir y defnydd a ganiateir trwy hyn i werthu ac arddangos cerbydau modur yn unig.<br>RHESWM - er budd mwynderau gweledol a phreswyl.<br>7.Ar y cyd gydag adleoli'r adeilad swyddfa dros dro sy'n ofynnol dan Amod 3, dylid lleoli a/neu newid yr adeilad i sicrhau nad oes ffenestri na drysau yn wynebu i'r gogledd (tuag at 1 Awelon Mor).<br>RHESWM - er budd mwynderau preswyl.<br>8.Ni ddylid profi nac atgyweirio cerbydau sydd ar werth neu'n cael eu harddangos ar fannau agored y safle.<br>RHESWM - er budd mwynderau gweledol a phreswyl.<br>Nodyn i'r ymgeisydd - Nodiadau Priffyrdd ac Ategol - 1, 3, 4, 5 a 10.<br>Cafwyd trafodaeth ar amseriad cais am ymweliad safle ar y cynnig hwn. Gwnaed y cais hwn ar ôl trafodaeth faith ar haeddiannau'r cais a theimlai rhai Aelodau bod hyn yn erbyn y Rheolau Sefydlog a oedd yn gofyn am gael gwneud cais o'r fath ar y cychwyn ac, os cytunwyd gyda hynny, yna ni ddylid cael trafodaeth bellach.<br>Ystyriodd y Pennaeth Cyfreithiol a Gweinyddol yn yr achos hwn bod priodolrwydd posibl ymweliad safle ond yn dod yn amlwg yn ystod y drafodaeth a bod y cais yn un cyfiawn.<br>O roddi hyn i bleidlais, gorchfygwyd y cais am ymweliad safle o 13 pleidlais i 12. (Dymunodd y Cynghorwyr Neville Hugh Jones ac M German gael nodi iddynt bleidleisio o blaid ymweliad safle).<br>Yna ystyriwyd y cynnig i roddi neu wrthod caniatâd cynllunio.<br>Penderfynwyd RHODDI caniatâd cynllunio.<br>(Dymunodd y Cynghorwyr M.A German, I.M. German a J.R. Hughes gael cofnodi iddynt bleidleisio i wrthod caniatâd). |

| | |
|---|---|
| 43/2000/443/PF | (Datganodd M. Dakeyne ddiddordeb yn y cais canlyno a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar y mater).<br>(Ar ôl ystyried dau lythyr ychwanegol oddi wrth y Pennaeth Priffyrdd a New Development Consultants).<br>Adeiladu estyniad un llwr i ddarparu 4 ystafell ddosbarth gyda llwybr dan do yn cysylltu gyda'r ysgol bresennol ac adeiladu mynedfa dros dro a llwybrau mynediad ar gyfer cerbydau adeiladu (newid i gais rhif: 43/708/99/PF) yn Ysgol GS Penmorfa, Dawson Drive, Prestatyn, Sir Ddinbych.<br>YN AMODOL ar y nodiadau canlynol i'r ymgeisydd 1, 2, 3, 4 a 5:-<br>1.Fe'ch cynghorir na ddylai cerbydau adeiladu sy'n gysylltiedig gydag adeiladu'r estyniad ddanfon i neu adael y safle rhwng yr amserau canlynol:-<br>08.30 o'r gloch i 09.15 o'r gloch, a 15.00 o'r gloch i 16.00 o'r gloch er mwyn osgoi amserau agor a chau'r ysgol.<br>2.Tynnir eich sylw at y Nodiadau Priffyrdd Ategol rhifau 1, 2, 3, 4, 5 a 10.<br>3. Tynnir eich sylw at ffurflen Rhan N sydd ynghlwm (Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991)<br>4. Nodwch os gwelwch yn dda bod y datblygiad hwn i'w ddraenio ar system wahanol. Am wybodaeth bellach, cysylltwch gyda New Development Consultants ar 01492 543950.<br>5. Ni chaniateir cysylltiad newydd gyda'r system garthffosiaeth gyhoeddus heb gymeradwyaeth ymlaen llaw a chyda goruchwyliaeth New Development Consultants. |
| 43/2000/455/PF | (Ar ôl ystyried dau lythyr ychwanegol odi wrth Gyngor Tref Prestatyn a D. Dervish, 16 The Brae, Melyd).<br>Adeilad estyniad dau lawr to goleddf yng nghefn ty annedd yn 14 The Brae, Prestatyn, Sir Ddinbych. |
| 43/2000/469/PF | (Ar ôl ystyried dau lythyr ychwanegol oddi wrth Gyngor Tref Prestatyn a'r Pennaeth Priffyrdd (yn gofyn am ohirio)).<br>Dymchwel adran flaen uned ffatri bresennol ac adeiladu estyniad blaen newydd dau lawr (Dosbarth B1) yn 21 Unedau Ffatri, Kings Avenue, Prestatyn, Sir Ddinbych.<br>YN AMODOL ar amod newydd rhif 9:-<br>8.Ni chymeradwyir deunyddiau a lliwiau allanol a nodir yn Narlun AL[0]03. Dylid cyflwyno manylion pellach deunyddiau a lliwiau allanol i a'u cymeradwyo yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn cychwyn ar y datblygiad a dim ond y cynllun lliwiau a gymeradwyir a ddylid ei ddefnyddio.<br>RHESWM - er budd golwg y datblygiad ar y stryd. |
| 45/2000/297/PF | Newid defnydd a newidiadau i gyn siop ac annedd i greu 2 fflat oll-gynhwysol yn 47 Ffordd Rhuddlan, Y Rhyl, Sir Ddinbych. |
| 47/2000/295/PF | (Datganodd y Cynghorydd R.Ll. Williams ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar y mater).<br>Dymchwel ty annedd ac adeiladau presennol ac adeiladu annedd yn eu lle; adeiladu mynedfa newydd gerbydau a gosod offer trin carthffosiaeth newydd yn Nhyddyn Arthur Waen, Llanelwy, Sir Ddinbych.<br>Ymatalodd y Cynghorwyr N H Jones ac M Ll Davies rhag pleidleisio.<br>Holwyd oes oedd cysylltiad y Cynghorydd Lloyd Williams gyda'r cais hwn yn gofyn am gyfeirio'r cais i'r Cyngor Llawn. Penderfynwyd nad oedd perthynas y Cynghorydd Williams gyda'r ymgeisydd (ei ferch) yn syrthio i'r categori yn y Cynllun Dirprwyo a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor Llawn. |

(ii) Caniatâd Adeilad Rhestredig (yn amodol ar ganiatâd Cynulliad Cenedlaethol Cymru)

Rhif y Cais. Disgrifiad a Lleoliad

02/2000/221/LB

(Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol oddi wrth Gyngor Tref Rhuthun).
Adeilad estyniad a newidiadau mewnol i Neuadd y Dref, newidiadau mewnol i'r Orsaf Dân i gynnwys Canolfan Cynghori'r Cyhoedd, dymchwel ac ailadeiladu toiledau cyhoeddus cyffiniol, a mân waith i du allan adeiladau yn Neuadd y Dref, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, Sir Ddinbych.
YN AMODOL ar amod diwygiedig canlynol rhif. 3:-
3. Ni chaniateir cychwyn ar unrhyw waith ar y gwaith safle allanol yn cynnwys yr ardal tynnu lluniau/seremoni nes cyflwynwyd er ystyriaeth gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol:-

(i) cynllun manwl llawn yn dangos y tirweddu caled a meddal arfaethedig, lefelau/dodrefn stryd a strwythurau cysylltiedig (gan gynnwys rhywogaeth, niferoedd a lleoliad) a deunydd arwyneb, a

(ii) bod cynllun o'r fath wedi ei gymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol; ac ni ddylid defnyddio adeilad Neuadd y Dref nes bydd y manylion a gymeradwywyd wedi eu cwblhau yn unol â'r manylion a gymeradwywyd.

Cynghorodd y Pennaeth Cyfreithiol a Gweinyddol y Pwyllgor ar y trefniadau cyfreithiol a oedd eu hangen, yn enwedig mewn perthynas â'r Adeilad Rhestredig. Gan nad y Cyngor Sir oedd yr ymgeiswyr yn yr achos hwn, nid oes gofyniad ychwanegol i gael penderfynu ar geisiadau MCP gan y Cynulliad Cenedlaethol. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol yr hawl i "alw ceisiadau i mewn" os tybir bod angen hynny, ac fe gyfeirir y Cais Adeilad Rhestredig i CADW yn y dull arferol.

*(b)* *Gohirio'r ceisiadau canlyno am y rhesymau a nodir:-*

Rhif y Cais. Disgrifiad a Lleoliad

28/1999/945/PF

(Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol oddi wrth New Development Consultants).
Dymchwel adeiladau presennol a datblygu tir trwy adeilad 4 ty annedd, adeiladu mynedfa newydd i gerbydau/cerddwyr a darparu mannau parcio cysylltiedig yn Iard Adeiladwyr Bryn Arwel, Stryd Dinbych, Henllan, Dinbych, Sir Ddinbych.
RHESWM - angen manylion pellach ar allu draenio/carthffosiaeth yn Henllan.

45/2000/346/LB

(Ar ôl ystyried pedwar llythyr ychwanegol oddi wrth yr Ymgeisydd; T. Ligema, 77 Talargoch, Melyd; Mr. G. Owen, 36 Southside, Clapham Common, Llundain a Mrs. J. Brown, 17 Grenville Avenue, Rhuddlan).
Cynnig i ddymchwel adeilad eglwys restredig Graddfa II St. John's Church, Wellington Road, Y Rhyl, Sir Ddinbych.
RHESWM - i alluogi trafodaethau pellach.

**188.** **DATBLYGU PARC TECHNOLEG GWYDDONIAETH, TIR I'R GORLLEWIN O ABERGELE RHWNG YR A55 AR A547**

Ymhellach i Gofnod 1087 19eg Ebrill 2000, cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad ysgrifenedig (a ddosbarthwyd eisoes) yn hysbysu'r Aelodau o ganlyniad aflwyddiannus cais i'r Cynulliad Cenedlaethol bod y cais uchod yn cael ei "alw i mewn".

***PENDERFYNWYD*** *cydnabod cynnwys yr adroddiad.*

**189.** **MATERION GORFODI**

(i) ENF/170/99/S Tir yn Llanucha Bryneglwys, Corwen.

- Cyflwr y tir yn andwyo mwynderau'r gymdogaeth:
- Defnydd heb awdurdod ar gyfer storio deunydd adeiladu ac eitemau sgrap:
- Diffyg dychwelyd Hysbysiad Cais am Wybodaeth (Adran 330 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990)

***PENDERFYNWYD*** *rhoi awdurdod ar gyfer y canlynol*

*(a) cyflwyno hysbysiad dan ddarpariaethau Adran 215 y Ddeddf yn gofyn am gymryd camau a ystyrir yn angenrheidiol er mwyn gwella cyflwr/golwg y tir;*

*(b) cychwyn camau erlyn neu gamau priodol eraill dan y Deddfau Cynllunio yn erbyn y person neu bersonau i'r rhain y cyflwynir hysbysiadau cyfreithiol neu yn erbyn y rhain y cymerir camau cyfreithiol os methant â chydymffurfio gyda gofynion y rhai hynny, a*

*(c) cychwyn camau erlyn yn erbyn y sawl sy'n derbyn yr Hysbysiad Cais am Wybodaeth a gyflwynwyd dan Adran 330 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990 sydd wedi methu â dychwelyd y wybodaeth yn yr amser a bennwyd.*

(ii) ENF/321/98/S a ENF/127/00/S Rhifau 1 a 7 Railway Terrace, Rhuthun

Ffenestri newydd uPVC annerbyniol i Rif 1 Railway Terrace a ffenestri newydd uPVC annerbyniol a drws i Rif 7 Railway Terrace, Rhuthun.

(Datganodd y Cynghorydd E.W. Williams ddiddordeb yn yr eitem hon).

***PENDERFYNWYD*** *rhoi awdurdod ar gyfer y canlynol*

*(a) cyflwyno Hysbysiad Gorfodi Adeilad Rhestredig i sicrhau tynnu ymaith y ffenestri plastig heb awdurdod yn Rhif 1 a Rhif 7 Railway Terrace a thynnu ymaith y drws plastig heb awdurdod yn Rhif 7 Railway Terrace a sicrhau eu hadnewyddu gyda nodweddion traddodiadol;*

*(b) bod yr Hysbysiad yn cael ei gyflwyno cyn gynted af y bo modd ond rhoi cyfnod o 18 mis er mwyn cydymffurfio er mwyn rhoi cyfnod rhesymol i swyddogion archwilio'r potensial ar gyfer cyllid i adfer y teras cyfan, a allai olygu cymorth gyda'r angen i gydymffurfio gyda gofynion Hysbysiadau Gorfodi Adeiladu Rhestredig, a*

*(c) Chychwyn camau erlyn neu gamau priodol eraill da y Deddfau Cynllunio yn erbyn y person neu'r personau i'r rhain y cyflwynir unrhyw Hysbysiadau neu yn erbyn y rhain y cymerir amau cyfreithiol os methant â chydymffurfio gyda gofynion y rhai hynny.*

**190.** **DYDDIAD YMWELIAD SAFLE**

Gan nad oedd angen ymweliadau safle, tynnwyd yr eitem hon yn ôl.

**191.** **RHESTR CEISIADAU WEDI EU TRIN DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad ysgrifenedig diwygiedig (a ddosbarthwyd yn y cyfarfod) ar geisiadau am Ganiatâd Cynllunio a benderfynwyd ganddo ef dan awdurdod dirprwyedig rhwng 6ed Mai 2000 a 9fed Mehefin 2000.

Gofynnodd y Cynghorydd M.Ll. Davies bod datblygiadau yng Nghastell Bodelwyddan yn cael eu monitro gyda sylw arbennig yn cael ei roddi i gynigion a ganiatawyd dan bwerau dirprwyedig (Rhifau Côd 40/2000/263 a 40/2000/264/LB

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.50 a.m.

**************.